Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

**Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)**

Stamp swyddfa (dyddiad cyrraedd)

# T240
# Hysbysiad o apêl

Gofyn i farnwr o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) benderfynu ar anghydfod sy'n ymwneud â Chyllid a Thollau EF (HMRC), Llu Ffiniau'r DU (UKBF), Awdurdod Cyllid Cymru (WRA), Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) neu'r Comisiwn Gamblo (GC) ar gyfer apeliadau sy'n ymwneud â'r ardoll economaidd yn unig.

Mae pob cyfeiriad isod at HMRC yn cynnwys UKBF, WRA, NCA a'r GC.

## Os oes arnoch angen cymorth

Cysylltwch â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon. **Ni all y tribiwnlys roi cyngor cyfreithiol i chi.**

**Cyfeiriad e-bost:** ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk

**Rhif ffôn:** 0300 303 5176
(Dydd Llun i ddydd Iau 9am - 5pm, dydd Gwener 9am - 4.30pm)

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y tribiwnlys yn:
www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-tax

## Rhestr wirio

**Rhestr o ddogfennau y mae angen eu cynnwys gyda'r cais:**

☐ copi o'r hysbysiad neu'r llythyr penderfyniad gwreiddiol (gan gynnwys yr esboniad am unrhyw benderfyniad(au) rydych yn apelio yn eu herbyn)

neu

☐ copi o lythyr canlyniad yr adolygiad (dylech gynnwys hwn os cafodd eich achos ei adolygu)

**Rhestrwch unrhyw ddogfennau eraill rydych wedi'u hatodi:**

| |
|---|
| |

## Nodiadau

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth. Rhowch eich enw ar frig unrhyw ddalennau ychwanegol.

### Nodyn ar gyfer y Rhestr wirio

Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn annibynnol ac nid oes ganddo fynediad at ffeiliau gan HMRC.

Mae'n rhaid i chi gynnwys copi o'r hysbysiad penderfyniad gwreiddiol neu lythyr canlyniad yr adolygiad (os cawsoch adolygiad) ar gyfer eich apêl.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys manylion pwysig am eich achos. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am eich hawl i apelio.


©Hawlfraint y Goron 2024

## Adran 1 – Gwybodaeth am yr apelydd

**1.1** Manylion yr apelydd

Enw cyntaf

Enw olaf

Enw'r cwmni neu sefydliad (os yw'n berthnasol)

Rôl yn y cwmni neu sefydliad (os yw'n berthnasol)

**Nodyn 1.1:** Os ydych yn gwneud cais ar ran cwmni neu sefydliad, nodwch eich enw a'ch rôl hefyd.

**1.2** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Gwlad

**1.3** Manylion cyswllt

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

**Nodyn 1.3:** Bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn cyfathrebu â chi drwy e-bost oni bai nad oes gennych un.

# Adran 2 – Gwybodaeth am gynrychiolydd yr apelydd

**2.1** A oes gennych chi rywun sy'n eich cynrychioli?

☐ Oes. **Ewch i gwestiwn 2.2**

☐ Nac oes. **Ewch i Adran 3**

**2.2** Manylion cynrychiolydd yr apelydd

Enw cyntaf

Enw olaf

Enw'r cwmni neu sefydliad

**2.3** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (Dewisol)

Cod post

Gwlad

**2.4** Manylion cyswllt

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

**Nodyn ar Adran 2**

Os byddwch yn penodi cynrychiolydd, bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) ond yn ysgrifennu at y cynrychiolydd sydd wedi'i awdurdodi ac nid atoch chi. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y tribiwnlys ar unwaith os bydd eich cynrychiolydd yn rhoi'r gorau i weithredu ar eich rhan.

Mae'n rhaid bod eich cynrychiolydd wedi cytuno i'ch cynrychioli cyn i chi roi eu manylion ar y ffurflen hon.

Os yw'r cynrychiolydd yn gyfrifydd, yn asiant treth, yn ymgynghorydd ariannol, yn ffrind neu'n aelod o'r teulu, hynny yw, nad ydynt yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr yn y DU neu'n eiriolwr (yn yr Alban), yna mae'n rhaid i'r apelydd lofnodi'r ffurflen hon neu anfon ffurflen awdurdodi T239 wedi'i llenwi a'i llofnodi gan yr apelydd.

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen ar-lein yn www.gov.uk/government/publications/form-t239-authorise-a-representative

Dim ond cynrychiolydd cyfreithiol all apelio i'r tribiwnlys fel cynrychiolydd yr apelydd heb awdurdodiad. Disgrifir cynrychiolydd cyfreithiol fel unigolyn sydd wedi'i awdurdodi dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i gynnal ymgyfreitha neu arfer hawl i ymddangos.

**Nodyn 2.4:** Bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn cyfathrebu â chi drwy e-bost oni bai nad oes gennych un.

# Adran 3 – Math o apêl

**3.1** Ynglŷn â beth yw eich apêl? Dewiswch bob un sy’n berthnasol:

**Treth uniongyrchol**

- [ ] Treth Incwm – gan gynnwys treth a dalwyd drwy hunanasesiad a talu wrth ennill (PAYE)
- [ ] Treth Enillion Cyfalaf
- [ ] Treth Gorfforaeth
- [ ] Cyfraniadau Yswiriant Gwladol
- [ ] Cosbau’n gysylltiedig â threth uniongyrchol
- [ ] Arall

**Ewch i gwestiwn 3.2**

**Treth anuniongyrchol**

- [ ] Treth ar Werth (TAW)
- [ ] Cosbau’n gysylltiedig â threth anuniongyrchol
- [ ] Toll Gartref
- [ ] Toll Dramor
- [ ] Arall

**Ewch i gwestiwn 3.4**

**Arall**

- [ ] Hysbysiad gwybodaeth. **Ewch i gwestiwn 3.2**
- [ ] Adfer nwyddau a atafaelwyd. **Ewch i gwestiwn 3.4**

**3.2** A wnaethoch apelio yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol i HMRC?

- [ ] Do. **Ewch i gwestiwn 3.3**
- [ ] Naddo. **Cysylltwch â’r tribiwnlys** os nad ydych yn siŵr sut i barhau

**Nodyn ar Adran 3**

Cyfeiriwch at **T242: Gwneud apêl** - Taflen eglurhaol i weld rhestr lawn o’r mathau o anghydfodau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol, a meysydd eraill ble mae gan y tribiwnlys awdurdodaeth.

Rydym angen gwybod ynglŷn â beth mae eich apêl gan bod y gyfraith o ran sut a phryd allwch chi apelio yn wahanol ar gyfer gwahanol fath o drethi.

**Nodyn 3.2:** Ar gyfer hysbysiadau treth uniongyrchol neu hysbysiadau gwybodaeth, mae’n rhaid i chi apelio i HMRC, cyn y gallwch apelio i’r tribiwnlys.

Os gwrthododd HMRC eich apêl am ei bod yn hwyr, gallwch wneud cais i’r tribiwnlys i gael caniatâd i wneud apêl hwyr i HMRC.

**3.3** Treth uniongyrchol ac Arall – yn unig
Ar ôl i chi apelio i HMRC, a ddywedodd HMRC wrthych bod eich apêl yn rhy hwyr?

☐ Do. **Ewch i Adran 5**

☐ Naddo. **Ewch i gwestiwn 3.5**

**3.4** Treth anuniongyrchol ac Arall – yn unig
A gafodd y penderfyniad gwreiddiol ei adolygu?

☐ Do. **Ewch i gwestiwn 3.5**

☐ Naddo. **Ewch i gwestiwn 3.5**

☐ Naddo, rwy'n gwneud cais am ganiatâd i ofyn am adolygiad hwyr (ar gyfer adfer nwyddau a atafaelwyd) **Ewch i Adran 5**

**3.5** Treth uniongyrchol, Treth anuniongyrchol, Arall
Ynglŷn â beth yw eich anghydfod? Rhowch y manylion sy'n berthnasol:

☐ Mae HMRC yn honni fy mod angen talu

[ ]

- ar gyfer treth uniongyrchol. **Ewch i Adran 5**

- ar gyfer treth anuniongyrchol. **Ewch i Adran 4**

☐ Rwyf eisiau i HMRC ad-dalu

[ ]

**Ewch i Adran 5**

☐ Mae HMRC yn honni fy mod angen talu cosb neu gordal o

[ ]

**Ewch i Adran 5**

☐ Arall neu ddim yn siŵr (rhowch fanylion)

[ ]

**Ewch i Adran 5**

**Nodyn 3.3:** Os bu i chi ofyn am adolygiad neu dderbyn cynnig i'ch achos gael ei adolygu, yna gallwch ond apelio i'r tribiwnlys pan fyddwch wedi cael llythyr canlyniad adolygiad.

Os nad ydych wedi cael y llythyr canlyniad adolygiad, yna bydd rhaid i chi aros 45 diwrnod cyn y gallwch apelio.

**Nodyn 3.4:** Ar gyfer adfer nwyddau a atafaelwyd, mae'n rhaid i chi ofyn am adolygiad i Lu Ffiniau'r DU neu HMRC cyn y gallwch apelio i'r tribiwnlys.

Os gwrthodir eich cais am ei fod yn hwyr, gallwch wneud cais i'r tribiwnlys am adolygiad hwyr.

**Nodyn 3.5:** Gwiriwch yr hysbysiad gwreiddiol neu'r llythyr canlyniad adolygiad am fanylion eich anghydfod.

**Nodyn ar Arall**

Nid yw pob penderfyniad yn benderfyniad ariannol.

Er enghraifft: adfer nwyddau a atafaelwyd, statws cyflogaeth.

## Adran 4 - Treth anuniongyrchol yn unig

**4.1** A ydych wedi talu'r swm y mae HMRC yn honni sy'n ddyledus gennych?

- [ ] Do. **Ewch i Adran 5**
- [ ] Naddo. **Ewch i gwestiwn 4.2**

**4.2** A wnaethoch chi ofyn i HMRC a allech apelio heb orfod talu'r dreth yn gyntaf?

- [ ] Do. **Ewch i gwestiwn 4.3**
- [ ] Naddo. **Ewch i gwestiwn 4.4**

**4.3** A wnaeth HMRC ganiatáu i chi ohirio talu oherwydd caledi ariannol?

- [ ] Do. **Ewch i Adran 5**
- [ ] Rwy'n aros am y penderfyniad. **Ewch i Adran 5**
- [ ] Naddo. **Ewch i gwestiwn 4.4**

**4.4** Pam y byddai talu'r dreth sy'n sail i'ch anghydfod yn achosi caledi ariannol i chi?

Rwyf eisiau gwneud cais i HMRC ystyried fy nghais am galedi ariannol oherwydd:

**Nodyn ar Adran 4**

Ar gyfer trethi anuniongyrchol, fel arfer mae'n rhaid i chi dalu unrhyw swm y mae HMRC yn honni sy'n ddyledus gennych cyn i chi apelio.

Fodd bynnag, gellir eich esgusodi am resymau'n ymwneud â chaledi ariannol.

Nid oes rhaid ichi dalu unrhyw gosb neu gordal cyn y gallwch apelio.

Os byddai talu'r dreth yn achosi caledi ariannol i chi, mae'n rhaid i chi ofyn i HMRC os allwch ohirio talu cyn y caniateir i'ch apêl barhau.

Os na fydd HMRC yn caniatáu i chi ohirio talu, atebwch gwestiwn 4.4 (neu rhowch resymau mewn dogfen ar wahân). Bydd y barnwr yn penderfynu p'un a all eich apêl barhau heb i chi orfod talu'r dreth yn gyntaf.

Os ydych yn aros am benderfyniad, a bod HMRC yn gwrthod yn ddiweddarach, gallwch wneud cais i'r tribiwnlys i ystyried eich achos am galedi ariannol ar y pwynt hwnnw.

# Adran 5 – Amser yr apêl

**5.1** Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl bod eich apêl o fewn amser, eglurwch pam na wnaethoch apelio'n gynharach.

### Nodyn ar Adran 5

Rhaid i'r hysbysiad o apêl gyrraedd y tribiwnlys **o fewn 30** i ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol neu'r llythyr canlyniad adolygiad (neu erbyn dyddiad olaf y cyfnod o 45 diwrnod os na gawsoch lythyr canlyniad adolygiad).

**Mae'r amser yn cychwyn o'r dyddiad sydd ar y penderfyniad ac nid o'r dyddiad y cawsoch y penderfyniad.**

Mae'n rhaid i chi egluro'r rhesymau pam na wnaethoch anfon eich hysbysiad o apêl o fewn yr amser penodol hwn. Ni fydd y tribiwnlys yn derbyn eich apêl oni bai eich bod yn gwneud hyn.

Bydd y barnwr yn ystyried eich rhesymau ac unrhyw ymateb gan HMRC.

Efallai y cynhelir gwrandawiad i benderfynu a all eich apêl barhau. Os na chaniateir ichi apelio'n hwyr, fe ddywedir wrthych pam.

Gallwch gynnwys dogfen ar wahân os ydych angen mwy o le i ysgrifennu.

# Adran 6 – Seiliau'r apêl

**6.1** Rhowch resymau dros bob penderfyniad rydych yn ei wrthwynebu

## Nodyn ar Adran 6

Eglurwch yn glir pam eich bod chi'n apelio. Rhowch resymau dros bob penderfyniad rydych yn ei wrthwynebu. Bydd y barnwr eisiau deall eich ochr chi.

Gallwch nodi eich rhesymau yma neu gynnwys dogfen ar wahân os ydych angen mwy o le i ysgrifennu.

**6.2** Dywedwch yn gryno pa ganlyniad yr hoffech ei gael.

**Nodyn 6.2:** Eglurwch yn glir y canlyniad yr hoffech ei gael mewn 2-3 brawddeg.

Er enghraifft, os ydych yn anghytuno â dyfarniad, dylech ddweud wrthym beth ddylai'r dyfarniad cywir fod yn eich barn chi.

## Adran 7 – Gwrandawiad

**7.1** A fydd angen unrhyw gymorth arnoch yn y gwrandawiad, fel mynediad i gadair olwyn neu ddolen glyw?

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch a pham y mae arnoch angen y cymorth hwnnw.

**Nodyn 7.1:** Gallwch ofyn am gymorth mewn gwrandawiad, er enghraifft:

- cymorth gyda mynediad a symudedd (cadair olwyn)
- cymorth i weld neu glywed beth sy'n digwydd yn y gwrandawiad
- dogfennau mewn fformatau, lliwiau neu ffontiau gwahanol

# Adran 8 - Datganiad gwirionedd

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

☐ **Rwyf yn awdurdodi'r cynrychiolydd** at bob diben yn yr achos hwn. Rwy'n deall y bydd y tribiwnlys ond yn cyfathrebu â'm cynrychiolydd a benodwyd yn briodol.

☐ **Mae'r apelydd yn credu** fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

**Llofnod**

☐ Apelydd

☐ Cynrychiolydd yr apelydd

Enw llawn

Rôl (dewisol)

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

### Nodyn ar Adran 8

Os byddwch yn penodi cynrychiolydd, bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) ond yn ysgrifennu at y cynrychiolydd sydd wedi'i awdurdodi ac nid atoch chi.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y tribiwnlys ar unwaith os bydd eich cynrychiolydd yn rhoi'r gorau i weithredu ar eich rhan.

Os yw'r cynrychiolydd yn gyfrifydd, yn asiant treth, yn ymgynghorydd ariannol, yn ffrind neu'n aelod o'r teulu, hynny yw, nad ydynt yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr yn y DU neu'n eiriolwr (yn yr Alban), yna mae'n rhaid i'r apelydd lofnodi'r ffurflen hon neu anfon ffurflen awdurdodi T239 wedi'i llenwi a'i llofnodi gan yr apelydd.

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen ar-lein yn www.gov.uk/government/publications/form-t239-authorise-a-representative

Dim ond cynrychiolydd cyfreithiol all apelio i'r tribiwnlys fel cynrychiolydd yr apelydd heb awdurdodiad.

Disgrifir cynrychiolydd cyfreithiol fel unigolyn sydd wedi'i awdurdodi dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i gynnal ymgyfreitha neu arfer hawl i ymddangos.

## Cysylltu â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi at:

**Cyfeiriad e-bost**

ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk

**Cyfeiriad**

Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)
Blwch Post 16972
Birmingham
B16 6TZ
Y Deyrnas Unedig

**Ffôn**

0300 303 5176
(Dydd Llun i ddydd Iau 9am - 5pm, dydd Gwener 9am - 4.30pm)

## Y camau nesaf

Bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn gwirio'r ffurflen hon ac yn rhoi gwybod i chi os oes angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth. Os nad oes angen rhagor o wybodaeth, bydd y tribiwnlys yn ysgrifennu atoch chi neu'ch cynrychiolydd (os oes gennych un) i gadarnhau'r camau nesaf.

Cewch ragor o wybodaeth yn: www.justice.gov.uk/tribunals/tax

I gael gwybodaeth am sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn prosesu ac yn storio eich data, ewch i https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy